# DAVIES, STEPHEN (1790 - 1858), bardd

**Enw:** Stephen Davies
**Dyddiad geni:** 1790
**Dyddiad marw:** 1858
**Priod:** Catherine Davies (née Price)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Barddoniaeth
**Awdur:** Emlyn Wynne Evans

o Ddyserth, a adnabyddid hefyd wrth yr enw ' Stephan '; ganwyd ym Mhrestatyn, Sir y Fflint, 8 Tachwedd 1790. Symudodd ei rieni i fyw i'r Dyserth tra yr oedd ef eto'n ieuanc. Yn 1822 priododd Catherine Price o Moelfra, ger Abergele, yr hon a fu farw yn 1835. Mae ei farwnad ar farwolaeth ei wraig yn gyfansoddiad teimladwy a thyner. Cyhoeddwyd llawer o'i gynhyrchion mewn cylchgronau Cymreig, ac y mae ei farddoniaeth o safon uchel. Yr oedd yn ymgeisydd eisteddfodol llwyddiannus, ac ymhlith ei gynhyrchion gorau ceir ' Hiraeth ar ol mabolaeth,' a enillodd y wobr yn eisteddfod y Gordofigion yn Lerpwl, 1840, ac ' Ymddiddan rhwng y bardd ac Amser.' Bu farw 6 Ebrill 1858, a chladdwyd ef yng Ngalltmelyd, ger Prestatyn.

## Awdur

**Emlyn Wynne Evans**, (1985)

## Ffynonellau


T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (1875)

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734410

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/


Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu